Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2016

Amser: 09.00 - 12.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/3781

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	John Griffiths AC (Cadeirydd) Gareth Bennett AC Mohammad Asghar (Oscar) AC (yn lle Janet Finch-Saunders AC) Siân Gwenllian AC Bethan Jenkins AC Rhianon Passmore AC Jenny Rathbone AC Joyce Watson AC
Tystion:	Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru John Howells, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Jon Antoniazzi (Clerc) Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)

	Chloe Davies (Dirprwy Glerc) Jonathan Baxter (Ymchwilydd) Hannah Johnson (Ymchwilydd) Osian Bowyer (Ymchwilydd) Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) Martin Jennings (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Janet Finch-Saunders AC. Dirprwyodd Mohammad Asghar AC ar ran Janet Finch-Saunders AC, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi
- John Howells, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio

3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Gohebiaeth rhwng yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid

3.1.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros gyllid a Llywodraeth Leol a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

3.2 Gohebiaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ynghylch ei Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

3.2.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

3.3 Gohebiaeth gan NSPCC Cymru ynghylch ei strategaeth ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

3.3.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan NSPCC Cymru.

3.4 Gohebiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) mewn perthynas â'r gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

3.4.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Cytunodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd i drafod y canlynol:

- tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant;
- y llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyllideb ddrafft;
- cynllunio strategol a thrafod ymchwiliadau posibl;
- y materion allweddol sy'n codi o waith craffu ar ôl deddfu'r Pwyllgor ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 - trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunwyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn nodi ei sylwadau ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2017-18, fel y mae'n ymwneud â'r portffolio.

6 Cynllunio strategol a thrafod ymchwiliadau posibl

6.1. Trafododd y Pwyllgor ei flaenoriaethau ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol.

7 Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: Trafod y materion allweddol

7.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol sy'n codi o'r dystiolaeth a gafwyd yn ei ymchwiliad i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, cyn drafftio'r adroddiad.